# Atgo o hen oludoedd O.M.

## Gan ELIS GWYN

'NID YDYM yn sicr pa mor hir y medrwn gadw'r clawr coch: ond er gorfod newid lliw'r clawr ac ansawdd y papur, erys amcan ac ysbryd *Cymru* yr un o hyd'. Dyna eiriau O.M. Edwards wrth restru deg pwynt ei fwriadau ar gyfer dyfodol y cylchgrawn, ar dudalen olaf yr hanner canfed cyfrol, Mehefin 1916.

Llithrodd y poster yn ei blyg i'm llaw wrth agor hen gopi o rifyn cyntaf y gyfrol honno, copi a'i ddalennau heb eu torri. Mae'n amlwg na phrynwyd mohono, ac na thrafferthodd y siopwr i dynnu'r papur allan a'i arddangos. Maint y poster yw pymtheng modfedd wrth ddeg, yr argraffwaith mewn glas ar bapur gwyn.


Yr oedd lle ar y clawr i nodi'r mis, y rhifyn a rhif y gyfrol, a'r 'cynhwysiad'. Felly gyda'r papur hysbysebu: gosodwyd y teip yn unswydd ar ei gyfer, defnyddio llythyren drymach ar gyfer y mis a'r flwyddyn, a hepgor 'Cyf. 50. Rhif 294.'

Mae mân wahaniaethau hefyd yn y 'cynhwysiad' rhwng y clawr ei hun a'r poster, fel Rhaiadr/Rhaeadr, Llyglys/Lluglys.

* * *

FEL Y GWELIR, mae pethau diddorol yn y cynnwys; pennod gyntaf *Rhwng Rhyfeloedd* E. Morgan Humphreys, a gyhoeddwyd yn nofel gofiadwy ymhen rhai blynyddoedd, ac un o straeon cynnar D.J. Williams, Abergwaun, *Y Gaseg Ddu*, enw a roddwyd yn deitl i gasgliad o'i waith a gyhoeddwyd yn 1970.

Gwaith S. Maurice Jones oedd cynllun clawr *Cymru*. Erbyn 1916 yr oedd wedi gwneud darluniau i'r cylchgrawn ac i rai o lyfrau O.M. ers tua chwarter canrif, ond dros y blynyddoedd tueddai'r golygydd i ddefnyddio mwy ar ffotograffau, ac nid oes dim un o luniau Maurice Jones yng nghyfrol 50, er ei fod yn dychwelyd gyda llun 'Afon Gonwy ag Eglwys Llanrwst' yn y gyfrol ddilynol yn ail hanner y flwyddyn.




Anodd credu mai'r un dyn yw SMJ y lluniau dyfrlliw â'r un a wnaeth y portreadau inc o dai a golygfeydd yn *Cylch Atgof* a *Chartrefi Cymru*. Mae'r rhai hynny'n berlau bach.

Enw un arall o arlunwyr ffyddlon O.M. Edwards sydd wrth wyneb-ddalen Cyfrol 50, sef Arthur Edward Elias. Anodd cysoni ei waith yntau, a oedd yn ddarluniwr effeithiol iawn, efo digrifwch anfwriadol yr 'wyneb-ddalen' hon, sy'n dangos dwy dylluan ac ystlum, a golygfa dderwyddol, a'r cyfan mewn bordor o flodau.

Erbyn y gyfrol nesaf mae'r ddalen yn wahanol, y teitlau mewn ffrâm o eiddew (hynod o fler), gyda thri ystlum ond dim ond un dylluan. Y tro hwn, y ddalen ar y chwith yn ei hwynebu, gyda ffotograff o gastell Harlech, a restrir ymysg darluniau'r gyfrol fel wyneb-ddalen.

* * *

ARLUNYDD arall y gwelir ei waith yn nwy gyfrol 1916 oedd G. Howell Baker, ac yr oedd ganddo yntau fwy nag un arddull. Gallai ymrithio'n hollol lwyddiannus yn y dull *art-nouveau*, ond gallai hefyd drawo braslun rhydd ar bapur (a'i ddifetha gyda'i lofnod) a phortreadu'r Garreg Wen yn deimladol mewn dyfrlliw.

Yr oedd O.M. wedi cynnwys taith i'r Garreg Wen yn *Cartrefi Cymru* 1896, ond heb ddarlun o'r lle, a thybed beth a deimlai yn 1916 wrth osod y teitl uwchben ysgrif ar yr un pwnc gan T. Matthews a'r darlun gan Howell Baker?

Troi dalennau yr wyf, a sylwi ar un golled o rwymo rhifynnau yn gyfrol, colli'r hysbysebion ar y cloriau. Y tu mewn i glawr cefn y rhifyn a gyhoeddir ar y poster, hysbysebir *Hanes Owen Glyndwr*, gan Thomas Pennant, gyda rhagymadrodd gan O.M. Edwards. Swllt oedd ei bris ac yr oedd 'Ar werth gan yr holl Lyfrwerthwyr'.

Hwyrach y byddai'r gwerthiant yn fwy petai pob un o'r rheini wedi gosod y poster yn ei ffenest.

Prun bynnag, ni chollodd y clawr fawr ddim o'i goch brwdfrydig, ac erys y poster fel newydd ar ôl treulio deuddeng mlynedd a thrigain yn ei blyg.


Gwasg Gwynedd
Cibyn Caernarfon
Gwynedd
Ffôn: Caernarfon (0286) 4486

Argraffwyr
a Chyhoeddwyr



**AR WERTH**

*GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU*
*Rhannau V, 1952; VI, 53; VI, 54; VIII, 54; XI, 56; XIII, 58; XIV, 59.*

*YR EFRYDYDD*
*Cyfres VIII, Rhif 1, Hydref 1930;*
*Cyfres IX, Rhif 9, Mehefin 1933.(Yr ail yn cynnwys Anerchiad y diweddar Gwilym Bowyer o blaid y penderfyniad "Ein bod yn gwrthod ymladd dros Frenin a Gwlad dan unrhyw amgylchiadau" yn Undeb Dadleuol Coleg P.G.C. Bangor.)*

*TALIESIN, Cyfrol 2 a 3;*
*BARN, Rhif 168, 169, 172, 173, 176, 177, 179, 181, 183.*
*Nifer fawr iawn o 'LLEUFER', Cylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn y Gogledd.*

*HANES LLENYDDIAETH GYMREIG O 1651 HYD 1850 gan CHARLES ASHTON, Cyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol.*
*Cynigion i Beryl Hall, 340 Cyncoed Road, Caerdydd.*